



CLILC • WLGA

Cyfryngau Cymdeithasol

Canllaw i Gynghorwyr



Cyswllt

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion CLILC yw hyrwyddo safonau ac enw da maes llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisiau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ynghyd â'r 3 awdurdod tân ac achub a 3 awdurdod parc cenedlaethol fel aelodau cyswllt.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

Ffacs: 029 2046 8601

www.wlga.cymru

Rydyn yn ddyledus i'r swyddogion a'r aelodau sydd wedi cyfrannu at y canllawiau hyn, yn enwedig yn Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint ar ran Cadeiryddion Tîm Gwybodaeth mewn Argyfwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Cyfreithwyr Llywodraeth Leol, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, Cadeiryddion Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd, Swyddogion Monitro a'r Rhwydwaith Aelodau Arweiniol, ac i'r LGA a Gwasanaeth Gwella'r Alban a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am eu harweiniad. Hefyd, i Kevin O'Keefe, o Excela Interim Management & Consultancy Ltd ar y pryd, a gyfrannodd at argraffiad cyntaf 2013 y canllawiau hyn.

Cyswllt: Sarah Titcombe – Swyddog Polisi a Gwella'r Gwasanaethau Democrataidd.
029 2046 8638 sarah.titcombe@wlga.gov.uk

Cynnwys

		tud
1	<u>Beth yw cyfryngau cymdeithasol?</u>	5
2	<u>Pam y byddwch o bosib yn gweld cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol</u>	13
3	<u>Cychwyn arni</u>	17
4	<u>Aros yn ddiogel a delio â throliau</u>	22
5	<u>Cymorth gan y cyngor</u>	24
6	<u>Cyfryngau cymdeithasoli a chyfarfodydd y cyngor</u>	26
7	<u>Rheolau euraid</u>	27
8	<u>Cadw'r ochr iawn i'r gyfraith</u>	30
9	<u>Gwybodaeth bellach, gwefannau diddorol a ffynonellau cymorth</u>	34
10	<u>Dolenni</u>	35

Rhagymadrodd

Mae cyfryngau cymdeithasol yn newid y byd.

Maent yn newid y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, y ffordd rydyn ni'n cael newyddion ac, yn gynyddol, y ffordd rydyn ni'n meddwl am ein hunain ac eraill. Mae cyfryngau cymdeithasol yn trawsnewid gwleidyddiaeth hefyd; mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn haws eu cyrraedd, yn galluogi lleisiau unigolion i gael eu clywed ac yn eu helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd, i filiynau o bobl o bosib, ar amrantiad.

Maent yn arf pwerus a all wneud llawer o dda ond, yn y dwylo anghywir, gallant achosi niwed hefyd. Mae twf cam-drin ar-lein neu drolio yn bryder, ac felly hefyd y dystiolaeth gynyddol fod sefydliadau neu hyd yn oed asiantaethau tramor yn gallu manteisio ar gyfryngau cymdeithasol neu ddefnyddio 'newyddion ffug' i ddylanwadu ar farn y choedd neu hyd yn oed effeithio ar ornestau democrataidd¹.

Mae dylanwad cyfryngau cymdeithasol yn tyfu. Nid yn unig y mae nifer y defnyddwyr gweithredol yn cynyddu ond maent hefyd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol fel cyfrwng i gyfathrebu, cysylltu a sbarduno.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn arf hollbwysig felly i gynghorau a chynghorwyr i ddarparu gwybodaeth i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethau a chysylltu â nhw.

Mae llawer o gynghorwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn barod ac mae llawer rhagor yn ystyried gwneud hynny. Fel cynghorydd, mae pethau ychwanegol i'w hystyried wrth ei ddefnyddio, yn cynnwys y Cod Ymddygiad a rheoli disgwyliadau a baich gwaith.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnig cyngor i'r cynghorwyr hynny sy'n newydd i gyfryngau cymdeithasol ynghyd â rhai awgrymiadau i'r sawl sy'n eu defnyddio'n barod. Mae cyfryngau cymdeithasol yn esblygu'n gyflym, felly mae'r canllawiau hyn yn cynnig trosolwg cyffredinol, rhai pwyntiau ac egwyddorion allweddol a chyfeiriadau at adnoddau cam-wrth-gam ar-lein.

¹ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-39830727> and <https://www.bbc.co.uk/news/world-us-canada-41355903>

1. Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

Mae cyfryngau cymdeithasol yn derm cyffredinol iawn sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o offerynnau amlgyfrwng ar-lein; yn fyr, mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu ichi gyfathrebu, darlledu neu gyhoeddi i filiynau mewn amrantiad, yn rhad ac am ddim fel arfer, a hynny oll o ddyfais fach ar gledr eich llaw.

Gellir sefydlu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy eich ffôn clyfar, PC, gliniadur, llechen neu deledu clyfar. Mae rhaglenni cyfryngau cymdeithasol (apiau) neu blatfformau yn caniatáu ichi gyfathrebu (un ai ag unigolion, grwpiau penodol neu bawb), rhannu gwybodaeth, rhannu lluniau, creu, golygu a rhannu sain a fideos a chwarae gemau gyda phobl eraill.

Erbyn hyn mae cynghorau'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel mater o drefn i gyfathrebu ac ymgynghori â'u trigolion, ac mae'r trigolion yn disgwyl i hyn fod yn sianel gyfathrebu arall, yn enwedig i wybodaeth frys. Mae ffrwd Twitter cynghorau'n cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau cymunedol, cau ysgolion a ffyrdd, swyddi gwag, digwyddiadau chwaraeon ac ymgynghoriadau, yn ogystal â manylion ac, weithiau, adroddiadau manwl am gyfarfodydd cyngor, yn cynnwys dolenni at weddarllodiadau. Gall pwyllgorau craffu cynghorau hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ac ymgynghori ynghylch eu gweithgareddau, a chynnal adolygiadau gwasanaeth, fel yn [Sir Fynwy](#) ac [Abertawe](#) er enghraifft.

Er bod rhai risgiau ynghlwm wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn delio â hyn yn ddiweddarach yn y canllawiau, mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn hwyl ac yn arloesol, a gellir eu defnyddio fel ffordd amgen o gyfathrebu a chysylltu, maen nhw hefyd yn gallu chwalu rhwystrau a stereoteipiau. Mae cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill wedi'u defnyddio ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus da, er enghraifft, mae'n werth edrych ar gyfrifon Twitter [Caru'r Lagwn](#) neu hashnod '[Faces of Swansea Council](#)' Abertawe, neu fideo '[In the Depot](#)' Torfaen.

Mae rhai cynghorau wedi gofyn i'r cyhoedd enwi [sychau eira](#) – ac i'r cyfryngau cymdeithasol mae'r diolch am [Boaty McBoatface](#)!


Mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu cyrraedd cynifer o bobl ac mae gan rai unigolion (enwogion neu wleidyddion cenedlaethol fel arfer) filiynau lawer o ddilynwyr. Mae'r

defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar gynnydd hefyd – yn 2017² dangosodd arolwg gan y Swyddfa Ystadegol Gwladol (ONS) fod 66% o bobl y Deyrnas Unedig wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y 3 mis diwethaf. Nid pobl ifanc yn unig sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae ymchwil pellach gan yr ONS yn dangos defnydd sylweddol ar draws pob grŵp oedran.

Canran yr unigolion oedd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y 6 mis blaenorol (ONS 2017)

Oed	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+	Pawb
%	96	88	83	68	51	27	66

Yn ôl Ofcom³, yn 2017, roedd:



Facebook a Twitter yw'r ddau blatfform a ddefnyddir fwyaf a nhw yw'r mwyaf perthnasol i gynghorwyr, felly. Yn ôl Twitter⁴ a Facebook⁵:



²<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/adhocs/007401socialnetworkingbyagegroup2011to2017>

³ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0027/104985/cmr-2017-wales.pdf

⁴ <https://www.statista.com/statistics/271350/twitter-users-in-the-united-kingdom-uk/>

⁵ <https://zephoria.com/top-15-valuable-facebook-statistics/>

Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio felly ar Facebook a Twitter i gynghorwyr, a byddant yn sôn yn fras am gyfryngau cymdeithasol eraill hefyd.

Blogiau

Yn ei hanfod, math o ddyddiadur ar-lein yw blog, gyda'ch postiau diweddaraf yn ymddangos yn gyntaf. Gall fod yn gyfres o gofnodion dyddiadur, meddyliau neu syniadau, neu'n lle i gyhoeddi erthyglau mwy manwl ar faterion penodol. Gall unrhyw un ychwanegu sylwadau at eich blog a gallwch ddefnyddio'r safle i dynnu sylw at sylwadau neu ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill, a darparu dolen gyswllt atynt. Mae blogiau'n fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu cynnal a'u diweddarau'n rheolaidd.

Daliwch ati...

Fel sy'n wir am y cyfryngau cymdeithasol i gyd, os dechreuwch chi flogio, mae'n well dal ati a gwneud yn siŵr fod eich blog yn gyfredol; os bydd rhywun yn gweld bod y cofnod diweddaraf ar eich blog wedi'i roi yno rai blynyddoedd yn ôl, gallant eich beirniadu drwy ddweud 'does gennych chi ddim byd arall i'w ddweud' neu 'does gennych chi ddim syniadau newydd'. Os byddwch chi'n rhoi'r gorau i flogio, ystyriwch archfio'r deunydd neu ei symud i blatfform cyfryngau cymdeithasol newydd.

Mae blogiau'n tueddu i gael eu cynnwys fel rhan o wefan sy'n bodoli'n barod neu drwy Facebook, sy'n golygu ei bod yn haws hyrwyddo ac annog adborth ehangach.


Mae rhai arweinwyr yn cynhyrchu blogiau drwy wefannau'u cyngor, er enghraifft yng [Nghaerffili](#) and [Rhondda Cynon Taf](#), a [Chadeirydd Cyngor Sir Ddinbych](#), tra mae cynghorwyr eraill yn cyhoeddi'u blogiau eu hunain, er enghraifft:

- [Y Cyng Peter Black](#)
- [Diprwy Arglwydd Faer Abertawe 2018-2019](#)
- [Y Cyng Neil Prior](#)



Yn dechnegol, micro-flog yw **Twitter**. Mae Twitter yn caniatáu ichi bostio gwybodaeth, newyddion, lluniau neu fideos mewn negeseuon sy'n cael eu galw'n **drydariadau**. Mae Twitter yn eich galluogi i **ddilyn** pobl, sefydliadau, newyddion neu wybodaeth y mae gennych ddiddordeb ynddynt, a phostio gwybodaeth a negeseuon eich hun. Yn eu tro, gall pobl neu sefydliadau eich dilyn chi, fel eu bod yn gweld eich holl drydariadau; gallwch hyd yn oed addasu'r gosodiadau fel eich bod yn cael gwybod pan fydd rhywun y mae gennych ddiddordeb arbennig ynddo yn trydar.

Cyfyngir trydariadau i 280 nod (mae 'nod' yn cynnwys llythrennau, rhifau, atalnodau a bylchau). Nid cyfrwng cyfathrebu preifat yw trydariadau ac mae unrhyw un sy'n eich dilyn yn eu gweld. Er enghraifft:



Gallwch **hoffi** neu **aidrydar** gwybodaeth a thrydariadau gan rywun arall yr hoffech chi eu pasio ymlaen i eraill. Er enghraifft:



Mae sgysiau ar yr un thema ar Twitter yn cael eu galw'n **edafedd**. Gallwch chwilio am Drydariadau ar bwnc mae gennych chi ddi-ddordeb ynddo drwy deipio'ch pwnc yn y blwch chwilio.

Caiff trydariadau ar yr un thema eu tynnu ynghyd drwy ddefnyddio **hashnodau**. Mae pobl yn defnyddio'r symbol hashnod(#) cyn allweddair neu gymal perthnasol yn eu trydriad er mwyn categoreiddio'r trydariadau hynny a'u helpu i ddangos yn haws mewn chwiliad Twitter. Dim ond ichi glicio ar air sydd ag hashnod mewn unrhyw neges, bydd Trydariadau eraill sy'n cynnwys yr hashnod hwnnw'n cael eu dangos.

Gallwch gael sgwrs breifat neu greu sgwrs grŵp gydag unrhyw un sy'n eich dilyn drwy ddefnyddio'r opsiwn **Neges Uniongyrchol**. Gall unrhyw un nad ydych chi'n ei ddilyn anfon Neges Uniongyrchol atoch hefyd os ydych wedi dewis derbyn Negeseuon Uniongyrchol oddi wrth unrhyw neu os ydych wedi anfon Neges Uniongyrchol at y person hwnnw cyn hynny.

Rhybudd

Fel gwleidydd, gallai pobl eraill ystyried eich trydariadau yn 'darged dilys'. Egwyddor dda yw peidio â rhoi unrhyw beth ar gyfryngau cymdeithasol a allai gael ei ddefnyddio yn eich erbyn ryw dro. Gall hyd yn oed eich aildrydariadau gael eu hystyried fel rhywbeth rydych chi'n ei gymeradwyo neu'i gefnogi.

Fel sy'n wir am ebost, er bod Negeseuon Uniongyrchol yn breifat ac efallai eich bod yn ymddyried yn y sawl sy'n eu derbyn, gallant ddod yn gyhoeddus os cânt eu datgelu'n answyddogol!

Gallwch **flocio** neu **ddistewi** cyfrifon ar Twitter. Unwaith y bydd cyfrif wedi'i flocio, ni all y cyfrifon hynny eich dilyn chi ac ni allwch chi eu dilyn nhw. Fodd bynnag, bydd hyd yn oed y rhai rydych chi wedi'u blocio yn dal i allu gweld eich cyfrif drwy drydydd parti sy'n eich dilyn.

**Dyma rhai esiamplau o gyfrifon
Twitter cynghorwyr:**

[@LeaderNewport](#)
[@CllrRobJames](#)
[@PeterFox61](#)
[@Cllrjuliefallon](#)
[@CllrSaif](#)
[@CllrFionaCross](#)
[@elinmwj](#)
[@DebbieWallice](#)
[@Alun_Williams](#)
[@CllrJoshuaPlaid](#)
[@CllrLisaMytton](#)
[@PriorNeil](#)

**A rhai sefydliadau
defnyddiol:**

[@WelshLGA](#)
[@LGAComms](#)
[@LlywodraethCym](#)
[@WG_localgov](#)
[@CynulliadCymru](#)
[@BBCCymruFyw](#)

Mae'r holl fanylion am sut mae Twitter yn gweithio a sut i sefydlu cyfrif i'w [gweld yma](#).



Facebook yw'r rhwydwaith cymdeithasol sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y byd. Mae'n caniatáu ichi greu eich gwedudalen neu grwpiau eich hun, neu gylchlythyr rhyngweithiol amdanoch chi, eich bywyd, eich diddordebau a'ch ffrindiau.

Cymerwch gip ar dudalennau'r cynghorwyr hyn:

- [Y Cyng Neil Prior](#)
- [Y Cyng Dhanisha Patel](#)
- [Y Cyng Matthew Dorrance](#)
- [Y Cyng Steve Churchman](#)

A'r tudalennau hyn gan gynghorau:

- [Cyngor Wrecsam](#)
- [Cyngor Sir Ynys Môn](#)
- [Parc Cenedlaethol Eryri](#)
- [Cyngoe Sir Y Fflint](#)
- [Cyngor Bro Morgannwg](#)

I ddefnyddio Facebook, bydd angen ichi greu proffil – **Llinell amser** lle gallech ychwanegu llun, disgrifio'ch hun, yr hyn rydych chi'n ei wneud a'ch diddordebau. Gallwch hefyd ddisgrifio'ch **Statws** a fyddai'n hysbysu eich ffrindiau am sut rydych chi'n teimlo neu beth rydych chi'n ei wneud ar unrhyw adeg neilltuol. Gallwch ddiweddarau hyn mor aml ag y dymunwch.

Ar Facebook, gallwch wahodd pobl i fod yn **Ffrindiau** â chi a phennu gwahanol lefelau o fynediad i'ch cyfrif. Gall rhai pobl weld yr holl wybodaeth amdanoch, neu gallwch ryddhau llai o fanylion i eraill. Gallwch hefyd ddefnyddio Facebook i gyfathrebu â grwpiau neu unigolion. Gall pobl sy'n teimlo bod eich tudalen, eich sylwadau neu'ch cynigion yn ddiddorol eich **Hoffi** chi neu'ch postiad diweddaraf, sy'n annog mwy o ddefnydd, ac mae'n ffordd ddefnyddiol o weld sut mae'r gwynt yn chwythu mewn ymateb i'ch syniadau. Gall pobl hefyd ychwanegu **Sylw** ar eich postiad neu **Rannu** eich postiad ar eu llinell amser eu hunain.

Efallai y byddwch am sefydlu tudalen Facebook am eich cymuned, i hyrwyddo digwyddiadau, cyhoeddiadau neu'ch gweithgareddau chi gyda'r cyngor; mae llawer o gynghorau a chynghorwyr yn gwneud hyn a gall fod yn ddull effeithiol iawn o gysylltu â'r gymuned a cheisio'i barn. Dylech fod yn barod i gael eich herio a'ch beirniadu, gan fod hwn yn fforwm agored ac na fydd pawb yn cytuno â'ch syniadau neu'ch barn; gallwch, fodd bynnag, osod rheolau, cymedroli a golygu postiadau pobl eraill os yw eu hiaith neu'r cynnwys yn sarhaus neu'n amhriodol.

Gallwch hefyd greu grŵp ar Facebook. Pan y byddwch chi'n [creu grŵp](#), gallwch benderfynu i'w wneud yn gyhoeddus i unrhyw un ymuno ag o, gydag angen caniatâd gan weinyddwr ar aelodau i ymuno, neu gallwch ei gadw yn breifat a thrwy wahoddiad yn unig.

Gallwch anfon nodiadau preifat at unrhyw "ffrind" rydych wedi'ch cysylltu ag ef ar Facebook; dim ond y sawl y cânt eu hanfon ato sy'n gweld y rhain; mae ap **Messenger** Facebook yn dod yn fwy a mwy poblogaidd. Gallwch hefyd gynnal '**Sgwrs Fyw**' ar

Facebook. Sgwrs mewn amser real yw hon gydag unrhyw un o'ch ffrindiau Facebook sy'n digwydd bod ar-lein ac wedi mewngofnodi ar yr un adeg â chi.

Yn holl-bwysig, mae Facebook yn gadael i bob defnyddiwr reoli pwy sy'n cael gweld ei wybodaeth bersonol a'r hyn y mae'n ei bostio ar y rhwydwaith. Gallwch osod y lefel preifatrwydd ar gyfer gwahanol categorïau o wybodaeth a phostiadau ac ymestyn y lefelau gwahanol o ganiatâd i wahanol bobl sy'n edrych ar eich safle. Fel aelod, efallai y byddwch am wahaniaethu rhwng yr hyn rydych chi'n ei ddangos i'ch ffrindiau agos a'r teulu ac aelodau'r cyhoedd.

Cewch ragor o wybodaeth am Facebook, a sut i ymuno, [yma](#)



Ap rhad ac am ddim i anfon negeseuon yw **WhatsApp** sydd hefyd yn caniatáu ichi gael 'sgyrsiau ffôn' traddodiadol. Mae'n boblogaidd iawn ac yn caniatáu ichi sefydlu grwpiau o ffrindiau neu gydweithwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar thema neilltuol. Gall fod yn ffordd gyflym a hawdd, er enghraifft, o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch grŵp gwleidyddol am faterion allweddol. Gallwch lawrlwytho'r ap o wahanol storfeydd apiau neu ewch [yma](#)



Platfform rhannu fideos yw **YouTube**. Mae'n hawdd recordio fideos ar ffôn clyfar ac mae'n haws eu lledaenu drwy Twitter neu Facebook; fodd bynnag, mae'n well gan rai pobl ddefnyddio YouTube ac mae cynghorau'n defnyddio mwy a mwy arno i bostio gwybodaeth. Dyma rai enghreifftiau:

[Caerdydd](#)

[Conwy](#)

[Gwynedd](#)

[Sir Fynwy](#)

[Powys](#)

2. Pam y byddwch o bosib yn gweld cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol

Bydd cyfryngau cymdeithasol yn eich galluogi i gychwyn sgysiau newydd gyda'r bobl rydych chi'n eu cynrychioli, ac mae'r potensial i gynghorwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn enfawr. Mae cyfryngau cymdeithasol yn fodd i fod yn arloesol ac i ymateb, yn ogystal â darparu dolenni at ffynonellau gwybodaeth defnyddiol neu gyfeirio pobl ymlaen at sefydliadau eraill.

- Peidiwch ag anwybyddu cyfryngau cymdeithasol – maen nhw'n bod, ac ni fyddant yn diflannu! Mae pobl eisoes ar-lein ac mae hynny ar gynydd, mae pobl yn disgwyl gallu cysylltu â'u cynghorwyr drwy gyfryngau cymdeithasol. Os nad ydych yn cymryd rhan, gall pobl eich anwybyddu neu hyd yn oed 'siarad amdanoch', ac ni fyddwch yn manteisio ar ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth.
- Maen nhw'n ffordd dda o ganfod beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, beth yw eu pryderon a'u diddordebau.
- Maen nhw'n ddefnyddiol i gael gwybodaeth am y newyddion diweddaraf, yr ymchwil neu'r dogfennau diweddaraf neu'r cyhoeddiadau polisi diweddaraf gan bleidiau gwleidyddol.
- Maen nhw'n ffordd dda o wneud yr etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith da rydych chi'n bersonol yn ei wneud.
- Gallant helpu i ddangos eich bod chi'n fwy agos-atoch, â'ch traed ar y ddaear. Yn aml, nid yw pobl yn deall beth mae cynghorwyr yn ei wneud ac efallai fod ganddynt argraffiadau negyddol, ond mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu rhoi cipolwg iddynt ar eich bywyd personol a'u hatgoffa eich bod chi'n union yr un fath â nhw, gyda diddordebau tebyg – ond mae angen ichi ystyried cydbwysedd a faint o'ch bywyd personol rydych chi am ei roi yn llygad y cyhoedd; er enghraifft – ydych chi eisiau i ddieithriaid allu adnabod eich teulu a'ch ffrindiau?
- Maen nhw'n ffordd effeithiol o gydlynu ymgyrchoedd, er enghraifft, denu cefnogaeth a diddordeb a chasglu dilynwyr. Gallwch hefyd roi mynediad i'ch cyfrif Facebook i weithwyr ymgyrchu er mwyn iddyn nhw bostio ar eich rhan chi neu'ch ymgyrch, i rannu'r baich gwaith.

- Mae'n caniatáu ichi gael sgwrs gydag amrywiaeth o bobl na fyddech byth yn gallu cwrdd â nhw'n gorfforol, ac nad ydynt yn draddodiadol yn cysylltu â'u cynrychiolwyr lleol.
- Mae'n galluogi ffordd o gyfathrebu ar unwaith. Gallwch basio gwybodaeth ymlaen a chael barn mewn munudau. Gallwch basio gwybodaeth oddi wrth bobl eraill ymlaen yr un mor gyflym. Mae "mynd yn feirol" yn cyfeirio at swmp ledaenu darn o wybodaeth ar draws y byd – ond byddwch yn ofalus, a gwnewch yn siŵr nad ydych ond yn rhannu gwybodaeth rydych chi'n hyderus ei bod yn gywir. Mae Newyddion Ffug yn niweidiol, ac mae perygl o ddifenwi os byddwch yn lledaenu anwireddau.
- Bydd y wasg leol, a chenedlaethol weithiau, yn dilyn cynghorwyr ar Twitter neu Facebook. Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell gynyddol o storïau ar gyfer unedau newyddion gan fod pob trydariad neu sylw yn ddatganiad bach i'r wasg, i bob diben. Bydd newyddiadurwyr yn gwybod am beth rydych chi'n siarad, y funud y siaradwch chi amdano.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn symudol. Gallwch eu cario o amgylch y gymuned, ar y trê, neu i gaffi. Gallwch lwytho lluniau a fideos i fyny, gan ddangos, er enghraifft, eich rôl chi mewn digwyddiadau lleol, lluniau o safleoedd posib i'w datblygu, adeiladau newydd, safleoedd lleol mewn cyflwr truenus – mae llun yn dweud mwy na geiriau.
- Maen nhw'n rhad ac am ddim ac mae'n fwy na thebyg fod yr offer gofynnol gennych yn barod. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw amser.
- Gallwch gael adborth ar eich syniadau a'ch maniffesto ar unwaith, gan eich galluogi i addasu'ch cynigion yn unol â'r farn leol.
- Ac yn bennaf oll, maen nhw'n gallu bod yn llawer iawn o hwyl!

Beth yw'r anfanteision?

- Mae presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod pobl yn gallu cysylltu â chi 24/7. Mae hyn yn grêt o ran hygyrchedd, ond mae'n golygu y byddant efallai yn disgwyl ichi ateb ar unwaith. Mae technoleg a chyfryngau cymdeithasol wedi codi disgwyliadau, mae pobl yn aml yn disgwyl ymateb cyflym i ddatrys eu ymholiad; mae'r disgwyliadau hyn, ynghyd â'r ffaith fod cyfryngau cymdeithasol yn dangos i bawb pa mor dda ydych chi am ymateb, yn gallu creu mwy o bwysau.

- Mae pobl yn gallu gwirioni ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, a chyn pen dim byddant yn ateb negeseuon yn hwyr y nos gan nad ydynt yn gallu rhoi’u dyfeisiau heibio.
- Hefyd, gellir rhoi gormod o sylw i’r hyn sy’n cael ei ddweud yn y ‘Twitterssfer’. Caiff adrannau o Twitter eu disgrifio’n aml fel ‘siambrau adleisio’ – efallai mai dim ond cwpl o bobl â nifer fach o ddilynwyr sydd â barn gryf ar bwnc a’u bod yn ‘bownsio’ oddi ar ei gilydd – efallai eu bod yn y lleiafrif ac nad ydynt yn gynrychiadol - efallai nad oes gan weddill y gymuned neu weddill cymdeithas unrhyw syniad am yr hyn sy’n cael ei ddweud, neu efallai nad ydynt o’r un farn!
- Gall pobl bostio gwybodaeth ffug, sarhad, neu negeseuon na fydddech am gael eich cysylltu â nhw ar eich platfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae’r rhain yn gallu lledaenu’n gyflym ar gyfryngau cymdeithasol.
- Mae rhai pobl yn dweud pethau ar gyfryngau cymdeithasol na fyddent yn eu dweud i’ch wyneb. Mae’n ffordd hawdd o daro ergyd bersonol at gynghorwyr. Caiff pobl sy’n gwneud y sylwadau hyn eu galw’n ‘Droliau’ yn aml ac efallai na fydd ganddynt ddiddordeb yn y ffeithiau, dim ond ymosod arnoch.
- Mae cynghorwyr, a chynghorwyr benyw yn arbennig, yn wynebu mwy a mwy o gamdriniaeth, bwlio ac aflonyddu ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol. Mae CLILC wedi cynhyrchu [canllawiau ar wahân](#) ar sut i ddelio â cham-drin ar-lein.

Mae’n haws dweud na gwneud, ond ceisiwch beidio poeni gormod am yr hyn sy’n cael ei ddweud ar-lein...

Mae’n debygol y cewch eich beirniadu rywdro ac efallai y bydd troliau’n ceisio’ch cythruddo, ond yn aml ychydig o ddilynwyr sydd ganddynt ac efallai na fydd llawer o bobl yn gweld eu sylwadau. Peidiwch â chynhyrfu, y cyngor gorau yw eu hanwybyddu. Yn aml byddant yn ymlusgo’n ôl i’w ffau...os aiff pethau’n ddifrifol, gallwch eu riportio.

Ydych chi'n rheoli'ch cyfryngau cymdeithasol ynteu ydyn nhw'n eich rheoli chi?

Mae ymchwil diweddar wedi dangos bod rhai pobl yn teimlo nad oes ganddynt reolaeth dros eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol⁶.

Holwch eich hun pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo os na allwch fynd i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol? Mae'n bwysig i gynghorwyr gofio, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod gweddill y byd ar-lein 24/7, nad oes rhaid i chi fod. Rôl broffesiynol yw bod yn gynghorwr a gallwch benderfynu i ba raddau rydych chi am fod ar gael.

Cyngor ar reoli defnydd o gyfryngau cymdeithasol

- Sefydlwch drefn, edrychwch ar eich negeseuon yr un amser bob dydd yn hytrach nag ymateb i 'bing' pob neges newydd sy'n cyrraedd
- Mae edrych ar sgrin yn gallu amharu ar eich patrymau cwsg. Ystyriwch ddiffodd pob sgrin ddwy awr cyn mynd i'r gwely, a gwnewch yn siŵr nad oes sgrin yn yr ystafell wely.
- Pan fyddwch gyda'ch trigolion wyneb yn wyneb, rhowch eich holl sylw iddynt i'ch helpu i ganolbwyntio ar beth sy'n digwydd yn y fan a'r lle, a pheidio ag ymddangos yn anfoesgar.

⁶ <http://www.bbc.com/future/story/20180118-how-much-is-too-much-time-on-social-media>

3. Cychwyn arni

Man cychwyn da fyddai i gysylltu a'ch swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i ganfod pa gefnogaeth a hyfforddiant sydd ar gael i chi.

Dewiswch eich cyfrwng a chofrestrwch arno. Mae cofrestru yn syml iawn a bydd yn cymryd llai na phum munud ichi! Mae Facebook a Twitter yn fannau cychwyn da.

Os nad oes gennych gyfrif yn barod, gofynnwch i gydweithiwr, ffrind neu aelod o'r teulu am gyngor; gofynnwch iddynt ddangos ichi sut maen nhw'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Efallai y byddwch am gychwyn arbrofi gyda chyfrif personol (yn hytrach na galw'ch hun yn "Gynghorydd Jones") a gweld sut mae pethau'n gweithio gyda'r teulu a ffrindiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut mae pobl yn dod o hyd ichi a phwy sy'n gallu gweld eich deunydd.

Cofiwch:

Ar Facebook gallwch reoli pwy sydd â mynediad i wahanol rannau o'ch cyfrif. Gallwch reoli beth mae'r byd yn ei weld a beth mae'ch "ffrindiau" yn ei weld.

Ar Twitter mae'r byd i gyd yn gallu gweld popeth. Gallwch **Amddiffyn eich Trydariadau**, sydd yn y bôn yn golygu bod eich trydariadau'n breifat i'ch dilynwyr cyfredol yn unig, ond mae hynny'n lladd y nod o ddefnyddio Twitter i gysylltu'n ehangach â phobl.

Pan fyddwch yn barod i sefydlu'ch cyfrif terfynol, ystyriwch pa hunaniaeth i'w defnyddio. Mae'r enw a roddwch i chi'ch hun ar-lein yn bwysig gan ei fod yn galluogi pobl i ddod o hyd ichi. Mae rhoi Cyng ar ddechrau'ch cyfrif Twitter yn rhoi gwybod i bobl pwy yn union ydych chi ac mae'n dangos bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol.

Ystyriwch:

- Mae gan wahanol gynghorwyr farn wahanol, ond efallai y byddwch am ystyried sefydlu cyfrif personol a chyfrif "cynghorydd" ar wahân, i gychwyn o leiaf – gallwch siarad am y bwyd gwych yn y tŷ bwyta rownd y gornel wrth eich ffrindiau a'ch

dilynwyr yn eich cyfrif anffurfiol, ac am y cynlluniau am y ffordd osgoi newydd gyda'ch ffrindiau a'ch dilynwyr ar eich cyfrif fel cynghorydd. Mae cyfrifon ar wahân yn gallu'ch helpu i reoli peth o'r trolïo ar-lein sy'n debygol o gael ei anelu atoch fel cynghorydd – gall fod yn ffordd o gadw'ch bywyd cartref a'ch bywyd fel cynghorydd ar wahân. Fodd bynnag, mae rhai cynghorwyr yn credu bod rhai o'u sylwadau personol am fwyd, lleoedd maen nhw wedi ymweld â nhw, gemau pêl-droed neu raglenni teledu yn help i chwalu rhagfarnau am gynghorwyr ac yn profi eu bod nhw'n normal fel pawb arall!

- Gwnewch hi'n hawdd i bobl ddod o hyd ichi ar-lein. Bydd llawer o bobl yn cychwyn eu chwiliad gyda'r ardal rydych chi'n ei chynrychioli, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn crybwyll eich lleoliad yn aml fel bod peiriannau chwilio yn dod o hyd iddo. Byddwch am wneud yn siŵr hefyd fod manylion eich cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar eich cardiau busnes, posterï a thafleuni.
- Cynyddwch nifer eich dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol drwy ddilyn pobl eraill, aildrydar trydariadau pobl eraill, hoffi trydariadau neu wneud sylwadau ar bostiadau Facebook pobl. Chwiliwch am bobl ar Twitter sydd â chysylltiadau â'ch cymuned, eich sir neu'ch rhanbarth chi, neu sydd â diddordebau tebyg, drwy chwilio gan ddefnyddio'r symbol 'hashnod' (#) i ragflaenu'r term rydych chi'n chwilio amdano, er enghraifft #llandrindod, #powys #canolbarthcymru
- Gallwch gyrraedd mwy o bobl ar Twitter trwy amseru eich trydariadau pan mae'r gynulleidfa rydych eisiau ei chyrraedd ar-lein. Gofynnwch i'ch ffrindiau ail-drydar, defnyddiwch hashnodau a chofiwch gynnwys lluniau i gael mwy o effaith gyda'ch postiad.
- Byddwch yn ddisgybledig ynglŷn â gwneud amser i ysgrifennu cynnwys newydd ac atebwch eich "ffrindiau" a'ch "dilynwyr" ar adeg reolaidd bob wythnos i ddiweddarau'ch statws Facebook; gwnewch amser hefyd yn ystod y dydd i edrych ar eich cyfrif Twitter. Os ydych yn defnyddio ffôn symudol, gallwch osod yr hysbysiadau i roi gwybod ichi bob tro y cewch eich crybwyll mewn trydriad.
- Os nad ydych am fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos, dwedwch wrth bobl pryd byddwch chi'n edrych ar eich cyfrif, er enghraifft, gallech ychwanegu "ar gael 9.00-7.00 ddyddiau'r wythnos" ar eich proffil.
- Penderfynwch am beth rydych chi'n mynd i siarad a sut. Gallai hyn fod yn

- o Ddiweddariadau wythnosol am eich gweithgareddau chi fel cynghorydd – a chofiwch y lluniau! Mae hyn yn gweithio'n well ar Facebook gan eich bod yn gallu cynnwys mwy o fanylion. Cofiwch mai dim ond 280 nod sydd gennych wrth drydar – mae'n tueddu i fod yn rhywbeth amserol, yn y fan a'r lle.
 - o Diweddariadau rheolaidd ar bolisiau'r cyngor a phethau y mae'n eu gwneud sydd o ddiddordeb i'ch cymuned chi.
 - o Dolenni cyswllt ac aildrydar gweithgareddau cenedlaethol perthnasol eraill.
 - o Materion yr hoffech chi gael adborth arnynt.
 - o Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus.
- Cyfathrebu dwyffordd yw hanfod cyfryngau cymdeithasol. Maent yn ffordd dda o ddarparu gwybodaeth i'ch cymuned neu o dynnu sylw at ddatganiadau i'r wasg, ond maent yn well fel cyfrwng i gael adborth defnyddiol. Fe gewch chi adborth a dylech ddisgwyl i rai pobl herio'ch syniadau a dadlau gyda chi ar-lein. Mae hyn yn rhan annatod o'r cyfryngau cymdeithasol.
 - Cadwch eich postiadau'n glir, yn gadarnhaol, yn gwrtais ac yn broffesiynol. Mae iaith glir yn help. Mae llawer o bobl yn defnyddio talfyriadau ar Twitter – fe ddewch chi'n gyfarwydd â'r rhain wrth fynd ymlaen!
 - Ar Facebook, bydd angen ichi fonitro ac, os oes rhaid, sensro'r cyfraniadau y bydd pobl eraill yn eu gwneud ar eich safle; dilëwch nhw os nad ydynt yn cadw at y safonau gofynnol o ran ymddygiad neu iaith. Gallai iaith ddifennol a sarhaus gael ei phriodoli i'r cyhoeddwr (chi yw hwnnw!) yn ogystal â'r awdur gwreiddiol a gallai arwain at atebolrwydd ariannol.
 - Mater i chi yw penderfynu a ydych am dynnu postiadau sy'n anghytuno â'ch safbwynt gwleidyddol; fodd bynnag, os byddwch yn eu tynnu, gallech gael eich cyhuddo o sensro cyfraniadau ar sail gwleidyddol.
 - Cadwch mewn cof fod sgorio pwyntiau gwleidyddol pleidiol yn gallu bod yn ddiflas i etholwyr – mae'n well ganddynt gael gwybodaeth am yr hyn rydych chi'n ei gyflawni.
 - Os yn briodol, ystyriwch sefydlu cyfrif ar gyfer eich ward gyda'ch cyd-aelodau ward – y ffordd yma, gallwch rannu'r tasgau gweinyddol.

- Os nad oes gennych unrhyw beth i'w ddweud...peidiwch â dweud dim. Er ei bod yn demtasiwn rhoi gwybod i'ch dilynwyr mor brysur ydych chi, buan y gwnân nhw ddiffasu ar ddiweddariadau parhaus am eich diwrnod heb unrhyw wybodaeth berthnasol neu ddiddorol.

Monitro cyfryngau cymdeithasol

Gall fod yn anodd cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd ar-lein; mae pobl yn postio ac yn trydar drwy'r amser ac, os ydych yn dilyn llawer o bobl a sefydliadau, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu mynd yn 'swnllyd' a hawdd fyddai hi ichi fethu pethau o ddiddordeb neu arwyddocâd.

Ffordd gyflym o gadw llygad ar bethau ar Twitter yw mynd i dudalen Twitter rhai o'ch hoff bobl, sefydliadau neu unedau newyddion i weld beth maen nhw wedi bod yn ei ddweud. Gallech hefyd chwilio am thema neu fater neilltuol gyda hashnod#.

Os ydych yn awyddus i wybod beth mae pobl yn ei ddweud amdanoch chi, eich ardal leol neu'r cyngor lleol, er enghraifft, mae yna raglenni rheoli cyfryngau cymdeithasol y gallech eu defnyddio, megis [Hootsuite](#) neu [Buffer](#). Mae'r rhain yn syml i'w sefydlu a'u defnyddio a gallant eich galluogi i weld pa mor aml y mae pobl yn darllen neu'n aildrydar eich trydariadau. Maent hefyd yn eich galluogi i amseru trydariadau, er enghraifft, i anfon trydariad wedi'i baratoi ymlaen llaw ar adeg neilltuol o'r dydd.

Y Gymraeg a chyfryngau cymdeithasol

Fel cynghorydd, byddwch eisiau defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru cymaint ag sy'n bosibl. Mae yna hefyd ofynion cyfreithiol sydd yn berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol. Mae sut mae'r rheolau yma'n berthnasol, yn dibynnu ar y math o waith rydych chi'n ei wneud a pha rai o safonau'r Gymraeg sydd yn berthnasol i'ch awdurdod lleol.

Pan fyddwch chi'n cynrychioli eich awdurdod lleol, bydd yr un safonau'n berthnasol i chi ag y maent i swyddogion. Felly er enghraifft, os ydych chi'n aelod cabinet sydd yn trydar am benderfyniad polisi newydd, yn faer sydd yn blogio am eich gweithgareddau diweddar ar ran y cyngor, yn gadeirydd pwyllgor craffu sydd yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ran y pwyllgor neu'n gadael i bobl wybod am y rhaglen gwaith i'r dyfodol, fe allech chi fod yn destun yr un safonau sydd yn berthnasol i'r swyddogion yn eich awdurdod. Fe allai hyn olygu bod yn rhaid i'ch cyfathrebiadau, gan gynnwys ymatebion i negeseuon, gael eu cyfieithu ac ni ddylai cynnwys a fformat y neges drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd eich awdurdod yn darparu canllawiau i chi ynglŷn â sut mae eich safonau

Cymraeg lleol yn berthnasol pan fyddwch chi'n cynrychioli'r awdurdod – os nad ydych chi'n sicr, mae hi'n syniad da i gysylltu â'r cyngor i gael cyngor.

Os ydych chi'n gweithredu yn rhinwedd aelod ward, yn gweithredu ar ran unigolion neu gymunedau yna mae'r un rheolau'n berthnasol â phetaech chi'n aelod o'r cyhoedd. Felly waeth beth yw eich rôl yn y cyngor, os ydych chi'n trydar am ffair leol, yn rhoi sylw am benderfyniad cyngor yn eich rôl ar grŵp pwysau lleol, yn ail-drydar cwyn am dyllau yn y ffordd, yna fe allwch chi gyfathrebu yn eich dewis iaith.

Yr eithriad i hyn yw pan fyddwch chi'n cyfathrebu ynghylch gweithgaredd lle byddwch chi'n defnyddio adnoddau'r cyngor (y tu hwnt i dâl ac offer safonol a ddarperir i chi fel aelod) er enghraifft adeiladau'r cyngor ar gyfer cyfarfod cymuned.

Gall rhywfaint o'r canllawiau ymarferol yng [nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg](#) ar gyfer busnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol fod yn ddefnyddiol.

4. Aros yn ddiogel a delio â throliau

Mae rhyw fath o anghytuno a beirniadaeth ar-lein yn anochel ac, os nad ydych ar-lein, efallai eich bod chi neu'ch polisïau eisoes yn destun trafod heb i chi fod yn rhan o hynny. Mae anghytuno a herio yn nodwedd allweddol o drafod democrataidd ond, ar-lein, mae'n hawdd iawn yn gallu troi'n gam-drin neu'n aflonyddu.

Bydd angen felly ichi fod yn barod i ddarllen rhai pethau anghyfforddus, a allai achosi poen meddwl. Ni allwch atal cam-drin ar-lein, ond gallwch reoli sut a ph'un a ydych yn ymateb iddo ac, os bydd yn ddifrifol, gallwch ei riportio.

Mae CLIC wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ar ddelio â cham-drin ar-lein, a allai fod yn ddefnyddiol ichi. Gallwch eu darllen [yma](#).

Gair o gyngor

- **Cymrwch Reolaeth**

Penderfynwch drosoch eich hun a gwnewch hi'n glir ar eich tudalen hafan beth rydych yn ei ddisgwyl gan bobl sy'n cysylltu â chi ar gyfryngau cymdeithasol. Gallech ddweud, er enghraifft, eich bod yn croesawu cyfnewid barn mewn modd agored a gonest, ond y bydd unrhyw sylwadau amhriodol yn cael eu dileu ac y bydd unrhyw sylw sy'n enllibus neu'n fygythiol neu sy'n troi'n aflonyddu yn cael ei riportio.

- **Cofiwch, does dim rhaid ichi oddef cam-drin neu aflonyddu oherwydd eich bod chi'n ffigwr gwleidyddol**

Byddwch yn barod i 'Ddistewi', 'Blocio' neu 'Ddileu Ffrind' mewn perthynas â defnyddwyr sarhaus, neu gofynnwch iddynt dynnu'u sylwadau oddi ar y safle. Os bydd sylw yn croesi'r llinell ac yn troi'n gam-drin neu aflonyddu, gallwch riportio hyn i Facebook neu Twitter neu hyd yn oed i'r heddlu.

- **Ymateb ynteu anwybyddu?**

Pan fyddwch yn wynebu sylw sarhaus, rhowch amser i chi'ch hun i benderfynu p'un ai i ymateb iddo ynteu'i anwybyddu. Yn aml, ychydig o ddilynwyr, neu ychydig o ddilynwyr o bwys, sydd gan droliau – os atebwch chi, mae'n gallu arwain at wrthdaro pellach a thalu'r pwyth yn ôl, ac mae'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r trôl neu'r boddhad o weld eich bod wedi'ch cythruddo. Mwy na thebyg fod gennych lawer mwy o ddilynwyr na'r trôl, felly os atebwch chi, bydd eich dilynwyr i gyd yn

ymwybodol o drydariad gwreiddiol y trôl. Gall anwybyddu'r sylw arwain yn y tymor byr at honiadau eich bod yn osgoi mater, er ei fod yn gallu llwyddo yn y tymor hir.

Peidiwch â bwydo'r trôl!

- **Peidiwch â chynhyrfu, a byddwch yn gwrtais**

Nid yw pob beirniadaeth gan drôl – weithiau gall aelod rhwystredig o'r cyhoedd fod yn feirniadol neu'n flin gyda chi i gychwyn ar gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig os yw'n ceisio datrys mater yn ymwneud ag un o wasanaethau'r cyngor. Os atebwch chi'n adeiladol, bydd tôn yr unigolyn yn newid ac efallai y gwnaiff hyn yn oed ymddiheuro neu ddangos ei werthfawrogiad ar-lein.

Cadwch mewn cof y bydd yna, am bob trôl, lawer mwy o ddilynwyr dilys a synhwyrol. Meddyliwch amdanyn nhw wrth ymateb. Un dull yw ymateb gyda dim ond ffeithiau, neu gyfeirio'r trôl at ddatganiad ffeithiol hirach am y sefyllfa neu set o "gwestiynau cyffredin" y gallwch eu postio i achub y blaen ar unrhyw gwestiynau. Efallai y byddwch am wahodd y trôl i gyfarfod cyhoeddus. Bydd yn anoddach iddo fod yn sarhaus yn gyhoeddus. Efallai hefyd y byddwch am atgoffa'r trôl eich bod yn fwy na hapus i gael dadl wleidyddol yn eich rôl fel cynghorydd ond nad yw sylwadau personol amdanoch chi neu'ch teulu yn dderbyniol.

Mae manylion llawn ar [Dudalennau Cymorth Facebook](#) a [Twitter](#) ynghylch sut mae blocio defnyddwyr a riportio camdriniaeth

Trosedd?

Os bydd rhywun yn anfon negeseuon bygythiol, camdriniol neu sarhaus atoch, gallent fod yn cyflawni trosedd. Os cewch chi neges sydd yn eich tyb chi yn disgyn i'r categori hwn, peidiwch ag ymateb iddi, ac edrychwch ar ganllawiau'r [heddlu](#) a [Gwasanaeth Erlyn y Goron](#). Os yw'n briodol, riportiwch nhw.

Cofiwch, mae CLILC wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ar [Ddelio â Cham-drin Ar-lein](#)

5. Cymorth gan y cyngor

Yn man cychwyn gorau fyddai i gysylltu a'ch swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i weld pa gefnogaeth a hyfforddiant sydd ar gael.

Yn gyffredinol, mae'r cyfarpar TGCh sydd ei angen ar Gynghorwyr i wneud eu gwaith yn cael ei ddarparu iddynt. Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i hyn gynnwys cyfarpar, cymorth a hyfforddiant.

Mae'n rhesymol disgwyl y bydd gennych fynediad i safleoedd cyfryngau cymdeithasol drwy gyfarpar TGCh y cyngor, i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl fel cynghorydd yn fwy effeithiol. Nid oes angen i'r cyngor sefydlu cyfrif cyfryngau cymdeithasol personol ar eich rhan, ond dylech fanteisio ar unrhyw hyfforddiant neu arweiniad sy'n cael ei ddarparu i'ch helpu i'w ddefnyddio'n briodol.

Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau bolisi ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd angen ichi gadw at hwn ac at unrhyw brotocolau cyfryngau cymdeithasol y cytunwyd arnynt pan fyddwch yn defnyddio'r cyfrif "cynghorydd".

Mae'n werth cofio mai'r cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth sy'n cael ei darparu ar ei wefan, a'i fod yn ysgwyddo cyfrifoldebau cyfreithiol. **Rydych chi'n** gyfrifol yn bersonol am y deunydd rydych chi'n ei ddarlledu ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu'ch gwefannau eich hun – ond mwy am hyn yn ddiweddarach.

Bydd cyngor ar gael ichi gan nifer o swyddogion y cyngor. Mae'r Swyddog Monitro, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Cyfathrebu a'r Rheolwr TGCh yn debygol o fod â chyngor buddiol.

Defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn argyfwng

Yn ystod argyfyngau (megis tywydd gwael difrifol, digwyddiadau o lygredd neu danau mawr) bydd asiantaethau partner megis awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gwasanaeth tân ac achub yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth i helpu pobl i baratoi, i'w diweddarau ac i'w cyfeirio i gael cymorth. Yn ystod cyfnodau fel hyn, mae'n bwysig bod yr wybodaeth fwyaf diweddar a chywir yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd a bydd yr asiantaethau partner yn cydlynu cynnwys ac amseriad yr wybodaeth a fydd yn cael ei darparu. Mewn argyfwng, bydd y cyngor hefyd yn dewis llefarydd swyddogol – swyddog neu uwch aelod o staff, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth gymeradwyedig i siarad ar ran y cyngor.

Ar adegau fel hyn, mae hi'n well i gyfyngu eich gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol eich hun i rannu gwybodaeth swyddogol gan yr asiantaethau partner sydd yn ymateb i'r sefyllfa.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'ch cyngor yn gweithredu o dan yr amgylchiadau yma cysylltwch â thîm argyfyngau sifil posibl eich cyngor er mwyn i chi wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

6. Cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd cyngor

Bydd Polisi Cyfryngau Cymdeithasol eich cyngor a/neu Gyfansoddiad y Cyngor yn rhoi arweiniad ichi p'un a oes gennych hawl i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y cyngor, neu pa bryd y mae'r hawl gennych. Ar wahân i'r hyn y mae'ch cyfansoddiad neu'r polisi cyfryngau cymdeithasol yn ei ddweud, nid oes rheswm cyfreithiol pam na ddylech ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae angen defnyddio synnwyr cyffredin.

- Mae trydar ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn cyfarfod a chael sylwadau o'r gymuned yn gallu bod yn fuddiol o ran tryloywder ac ymgysylltu OND gallai gorddefnyddio Twitter roi'r argraff nad ydych yn canolbwyntio ar y busnes sy'n mynd rhagddo neu hyd yn oed eich bod yn dibynnu ar gyfarwyddyd o'r tu allan i'r cyfarfod. Am y rheswm hwnnw, mae'n ddoeth mwy na thebyg peidio â defnyddio Twitter yn ystod trafodaeth gynllunio neu drwyddedu. Efallai y bydd cadeiryddion pwyllgorau am benderfynu sut i ymdrin â hyn yn eu cyfarfodydd, a dylech gadw at y rheolau yn eich cyfansoddiad.
- Mae llawer o wleidyddion yn trydar eu cyfraniadau neu gwestiynau i gyfarfodydd neu ddadleuon er mwyn rhoi gwybod i'w dilynwyr sut maen nhw'n cynrychioli buddiannau'u cymunedau. Cofiwch, efallai na fydd angen trydar manylion cyfarfod os yw'n cael ei weddarlledu. Efallai fod gan eich cyngor ffrydiau trydar swyddogol ar gyfer sgysiau ar-lein byw ochr yn ochr â gweddarllediad y cyfarfod.
- Cofiwch na ddylech drydar na chyfleu mewn unrhyw ffordd gynnwys busnes esempt neu gyfrinachol y mae awdurdodau lleol yn ymdrin ag ef mewn sesiwn gaeedig, megis gwneud apwyntiadau ffurfiol.

7. Rheolau euraid

- Ystyriwch cyn trydar na phostio ar Facebook. Peidiwch â dweud unrhyw beth na phostio barn na fyddech yn barod:
 - I'w thrafod wyneb yn wyneb â'r sawl yr ydych yn siarad amdano.
 - I'w hysgrifennu ar blacard a'i chario ar hyd eich stryd fawr a'i thrafod a'i hamddiffyn gydag unrhyw un sy'n ei gweld.
 - Iddi gael ei chofnodi mewn cyfarfod cyhoeddus – cofiwch, i bob diben, mae Twitter neu Facebook yn cofnodi popeth a wnewch yn gyhoeddus ar y pryd!
- Unwaith ichi ddweud rhywbeth, cofiwch y gall miliynau o bobl ei weld – ffrindiau, cefnogwyr, gwrthwynebwyr gwleidyddol a'r wasg, a gallai gael ei aildrydar o amgylch y byd mewn munudau.
- Cadwch eich negeseuon yn broffesiynol, yn foengar ac yn gadarnhaol.
- Cofiwch geisio cadw trydariadau a negeseuon testun ar wahân – mae llawer o bobl yn trydar sylwadau y byddent, cyn dyfodiad cyfryngau cymdeithasol, wedi'u tecstio'n breifat at rywun; gallai hyn fod am gwrdd yn ddiweddarach (ydych chi am i'ch holl ddilynwyr wybod eich cynlluniau a dod ar draws eich cinio!?) reit drwodd at jôcs neu dynnu coes a allai gael ei gamddechongli.
- Defnyddiwch ddisgresiwn wrth ddewis pwy i'w ddilyn ar Twitter neu i fod yn 'ffrindiau' â nhw ar Facebook. Er enghraifft, gallai rhai gweithwyr cyngor deimlo ei bod braidd yn anghyfforddus neu'n amhriodol fod cynghorydd yn sylwi ar bob gair o'u heiddo. Os ydych yn dilyn neu'n "ffrind" ar Facebook gyda gweithwyr cyngor, contractwyr sydd dan gytundeb i ddarparu gwasanaethau i'r cyngor, cwmni neu aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud cais cynllunio neu garfannau pwysu, gallai hyn gael ei ddechongli fel cysylltiad personol agos â nhw ac, felly, yn fuddiant personol.

Rhybudd

Peidiwch â thrafod gwaith achos ar gyfryngau cymdeithasol nac annog pobl i gysylltu am faterion a allai fod yn bersonol iddyn nhw. Anogwch nhw i ddefnyddio sianelau mwy diogel.

- Os gwnewch chi gamgymeriad, cyfaddefwch hynny. Mae camgymeriadau'n digwydd felly peidiwch â cheisio eu celu, oherwydd bydd yna gofnod am byth o'r hyn a ddwedoch.
- Peidiwch â thrydar na phostio ar Facebook pan ydych "wedi blino neu'n emosiynol"! Mae'n synhwyrol mae'n siŵr diffodd eich ffôn ar unrhyw adeg os byddwch yn credu bod eich barn yn llai na chadarn. Hyd yn oed os ydych chi'n ofalus o ran cyfryngau cymdeithasol, bydd pobl eraill yn dal â'u ffôn clyfar wrth llaw, a gallent bostio llun neu fideo ohonoch yn 'mwynhau'ch hun'; mae angen ichi allu ymlacio, ond mae'n un peth arall i'w ystyried fel cynghorydd yn oes y cyfryngau cymdeithasol.
- Fel sy'n wir o ran eich taflenni neu gylchlythyrau, gofynnwch am ganiatâd cyn tynnu llun rydych chi'n bwriadu'i ddefnyddio. Peidiwch BYTH â thynnu llun o blant heb ganiatâd penodol eu rhieni, a hwnnw wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn bwriadu'i wneud â'r llun. Bydd gan eich cyngor bolisi ar dynnu lluniau plant, felly ceisiwch gyngor ar hyn cyn tynnu na defnyddio lluniau.
- Peidiwch â chaniatáu mynediad i unrhyw un arall i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Diogelwch eich cyfrineiriau a defnyddiwch gyfrineiriau cadarn, unigryw, a newidiwch nhw'n rheolaidd, yn enwedig os ydych yn defnyddio cyfrifiadur cyhoeddus neu un a rennir.
- Fel sy'n wir gydag e-bost, gallwch gael eich hacio ar gyfryngau cymdeithasol! Byddwch ar eich gwyliadwriaeth pan gewch negeseuon uniongyrchol drwy Twitter, hyd yn oed gan bobl rydych chi'n eu hadnabod, yn dweud pethau fel 'Hi, have you seen this photo of you on Twitter?' Dilëwch y rhain heb eu hagor, oherwydd gallai'r sbam wedyn gael ei anfon at bawb rydych chi'n ei ddilyn. Peidiwch ag agor ffolderi neu ddolenni ar, er enghraifft, Facebook Messenger os nad ydych chi'n eu disgwyl. Gallai fod yn hac.

MEDDYLIWCH cyn postio neges; hyd yn oed os ydych yn dileu eich neges yn ddiweddarach, gall rhywun eisoes fod wedi cymryd llun ohono cyn hynny.

GWIRIWCH cyn rhannu neu ail-drydar gwybodaeth:

Ydi e'n wir?

Pwy ddywedodd hynny a pham?

Ydi'r ffynhonell yn ddibynadwy?

8. Cadw'r ochr iawn i'r gyfraith...

Mae cynghorwyr sy'n newydd i gyfryngau cymdeithasol yn tueddu i boeni am y goblygiadau cyfreithiol. Mae'n ystyriaeth bwysig, ac mae rhai cynghorwyr a gwleidyddion eraill wedi mynd i drafferthion cyfreithiol, ond dim ond ichi fod yn ofalus a dilyn rhai rheolau sylfaenol, mi fyddwch chi'n iawn!

Mae'r arddull gyfathrebu sy'n cael ei defnyddio yn amgylchedd y cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i fod yn gyflym ac anffurfiol. Mae negeseuon yn gallu ymddangos yn ddisylwedd a byrhoedlog.

Pa bryd bynnag y postiwch chi rywbeth ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn gyhoeddiad – i bob diben rydych chi wedi darlledu. Gan ei fod bellach yn y parth cyhoeddus, mae'n ddarostyngedig i'r **Cod Ymddygiad** ac i amryw o **ddeddfau**.

Cod Ymddygiad

Os ydych yn ymddwyn ar Twitter neu Facebook fel y byddwch yn bersonol ar y stryd neu yn eich taflenni, bydd popeth yn iawn.

Cofiwch, yn ôl canllawiau'r Ombwdsmon, mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol ichi pa bryd bynnag rydych chi'n "Cyflawni busnes eich awdurdod, yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn eich rôl swyddogol fel aelod o'r awdurdod neu'i gynrychiolydd". Mae'r Cod yn berthnasol ichi hefyd os ydych "Yn ymddwyn mewn modd a allai yn rhesymol gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod" ⁸

Cofiwch

Os byddwch chi'n derbyn neges neu bod rhywun yn postio rhywbeth ar eich tudalen nad ydych chi'n meddwl sy'n addas, tynnwch o i lawr cyn gynted ag sy'n bosibl. Os ydych chi'n "hoffi" neu'n ymddangos i gefnogi neu aildrydar neges neu lun, fe ystyrir eich bod wedi ei gyhoeddi a byddwch yn wynebu unrhyw oblygiadau cyfreithiol. Felly mae hi'n bwysig gwirio a chymedroli unrhyw safle y gall pobl eraill bostio arni yn rheolaidd. Os nad ydych chi'n siŵr sut i ddelio â neges y byddwch chi'n ei dderbyn, cysylltwch â'ch Swyddog Monitro.

Os gellir eich adnabod fel cynghorydd pan fyddwch yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, un ai drwy eich enw cyfrif neu'r ffordd rydych yn disgrifio'ch hun neu yn ôl y pynciau

rydych chi'n gwneud sylwadau arnynt a'r ffordd rydych chi'n gwneud sylwadau, mae gofynion y Cod Ymddygiad yn berthnasol. Os dwedwch chi rywbeth y gellid ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod, mae'r Cod yn berthnasol hyd yn oed os nad ydych yn ôl pob golwg yn gweithredu yn eich rôl swyddogol nac yn dweud eich bod yn aelod.

Cofiwch fod canllawiau'r Ombwdsmon yn dweud "Gall beirniadu'ch awdurdod mewn modd annheg neu anghywir mewn arena gyhoeddus gael ei ystyried yn ddwyn anfri ar eich awdurdod".

Yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol ichi ymddwyn yng nghyfarfodydd y cyngor neu yn eich cymunedau, dylech:

- **Ddangos parch tuag at eraill** – peidiwch â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fod yn anfoesgar neu amharchus
- **Peidiwch â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am bobl na'r cyngor**
- **Peidiwch â bwlio na dychryn pobl eraill** – gallai ailadrodd sylwadau negyddol am unigolion, neu wrth unigolion, dro ar ôl tro gael ei ddehongli fel bwlio neu dychryn
- **Peidiwch â cheisio sicrhau budd i chi neu anfantais i eraill**
- **Cadwch at y deddfau cydraddoldeb** – peidiwch â chyhoeddi unrhyw beth y gellid ei ystyried yn hiliol, yn rhywiaethol, yn oedraniaethol, yn homoffobaidd, yn wrth-ffydd - neu'n sarhaus i unrhyw grŵp sydd â nodweddion a ddiogelir a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Hyd yn oed fel jôc neu â'ch "tafod yn eich boch"

Peidiwch â throï'n drôl eich hun!

Mae cyfryngau cymdeithasol yn arf gwych i gynghorwyr i herio a chraffu, ond meddyliwch bob amser am yr hyn rydych chi'n ei ddweud, sut rydych chi'n ei ddweud, pa mor aml ac am bwy. Os crëwch argraff eich bod yn rhy ymosodol, yn rhy barod i dynnu pobl i'ch pen neu'n rhy aml, gallai hynny ddechrau gwneud niwed i'ch enw da, tanseilio'ch perthynas â'ch cydweithwyr, neu gallai fod perygl ichi dorri'r Cod Ymddygiad o ran bwlio, dychryn neu ddangos diffyg parch tuag at eraill.

Nid yw'n briodol felly ichi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i feirniadu swyddogion eich cyngor – yn aml, nid ydyn nhw mewn sefyllfa i amddiffyn eu hunain neu ymateb yn gyhoeddus.

Mae gan lawer o gynghorau apiau neu wasanaethau atgyfeirio ar gyfer yr aelodau. Mae'n well defnyddio'r dulliau hyn i wneud cais am ymateb.

Rhagbenderfynu

Fel cynghorydd, rydych yn gwybod, pan fyddwch yn gweithredu mewn rôl led-farnwrol, er enghraifft ar bwyllgor cynllunio neu drwyddedu, na ddylech benderfynu yn eich meddwl ar fater y mae gofyn penderfynu'n ffurfiol arno cyn ichi glywed yr holl wybodaeth berthnasol. Mae gennych hawl i dueddu ymlaen llaw tuag at farn neilltuol, ond nid i fynd cyn belled â rhagbenderfynu eich safbwynt.

Mae'n bwysig cofio felly y gallai unrhyw beth perthnasol yr ydych wedi'i ddweud am faterion neilltuol ar gyfryngau cymdeithasol gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth eich bod wedi penderfynu yn eich meddwl cyn clywed yr holl wybodaeth berthnasol.

Troseddau

Peidiwch â dychryn! Mae'r rhain eisoes yn berthnasol i'ch ymddygiad fel cynghorydd, ond mae'n werth eu hystyried fel y maent yn berthnasol i gyfryngau cymdeithasol:

Aflonyddu – Mae'n drosedd cynnal ymgyrch dro ar ôl tro yn erbyn rhywun, lle mae hynny'n debygol o achosi braw, niwsans aflonyddu neu ofid.

Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Mae'n anghyfreithlon cyhoeddi data personol am unigolion oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd ichi. Gallai hyn fod yn berthnasol i'ch etholwyr neu i ddefnyddwyr gwasanaethau. Fel cynghorydd, rydych chi'n rheolydd data eich hun ac yn gyfrifol yn bersonol felly am yr hyn rydych chi'n ei gyhoeddi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall gofynion y Rheoliad a Deddf Diogelu Data - ceir rhagor o wybodaeth am hyn [yma](#).

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn eich cyngor i gael rhagor o wybodaeth.

Ysgogi – Mae'n drosedd ysgogi unrhyw weithred droseddol.

Gwahaniaethu a Throseddau Gwaethygedig ar Sail Hil (neu unrhyw nodwedd warchodedig arall) – Mae'n drosedd gwneud sylw gwahaniaethol am unrhyw un ar sail "Nodwedd Warchodedig", yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (megis hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol etc).

Cyfathrebu Maleisus ac Anweddus – Mae'n drosedd anfon gohebiaeth neu negeseuon maleisus neu anweddus.

Cyfraith Sifil

Dyma lle mae'r risg yn cynyddu i unrhyw un sy'n defnyddio Twitter neu Facebook, boed nhw'n gynghorwyr, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n enwogion:

Difensiwn – Mae yn erbyn y gyfraith gwneud datganiad ffug am rywun, sy'n gwneud niwed i'w enw da personol neu broffesiynol. **Yn dyngedfennol – hyd yn oed os nad ydych ond yn aildrydar neu'n pasio ymlaen wybodaeth a bostiwyd yn wreiddiol gan eraill, gallwch chi gael eich dal yr un mor gyfrifol â'r sylwebydd gwreiddiol.** Gall hyn fod yn wir hefyd am ddelweddau a gyhoeddir. Os dyfernir eich bod yn atebol i berson arall, gallech gael gorchymyn i dalu symiau mawr o arian fel iawndal.

Hawlfraint – Mae perchenogaeth gyfreithiol cynnwys dogfennau, lluniau, fideos a cherddoriaeth yn perthyn i'r sawl a'u crëodd. Gallech dorri hawlfraint os ydych yn atgynhyrchu deunyddiau o'r fath heb ganiatâd y perchennog. Dylech ofyn am ganiatâd ysgrifenedig bob amser cyn defnyddio deunydd rhywun arall.

Sylwadau Gwleidyddol ac Ymgyrchu Etholiadol – Cofiwch, er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ofyn am bleidlais pobl drwy eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol chi eich hun, ni chaniateir gwneud hynny os ydych yn defnyddio offer cyfrifiadurol sydd wedi'i gyflenwi gan y cyngor, ac yn sicr ddim yn y cyfnod yn arwain at etholiadau. Mae gan y Comisiwn Etholiadol ragor o wybodaeth am y datganiad gwariant y mae angen i ymgeiswyr ei ddarparu ynglŷn â hysbysebu neu lenyddiaeth ymgyrchu.

Byddwch yn ymwybodol o newyddion ffug!

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ddeorfa dda i newyddion ffug neu 'abwyd clicio' (lle mae pennawd sy'n fwriadol anllad ynghyd â dolen yn ceisio'ch denu, yn aml at eitem newyddion digon di-ddim ynghyd â llawer o hysbysebion naid); edrychwch yn graff ar unrhyw newyddion neu glecs – gallai achosi embaras pe baech yn aildrydar neu'n hyrwyddo newyddion ffug ac, yn waeth, gallech fod yn torri'r gyfraith pe baech yn cylchredeg datganiadau ffug am rywun, hyd yn oed os nad yw'n ddim mwy nag aildrydar rhywbeth y mae rhywun arall wedi'i bostio.

9. Gwybodaeth bellach, gwefannau diddorol a ffynonellau cymorth

Cadwch mewn cof fod gwybodaeth, gwefannau a therminoleg yn newid yn gyflym. Bydd y platform cyfryngau cymdeithasol mawr nesaf ar ei ffordd yn fuan. Dyma rai enghreifftiau cyfredol o wybodaeth a gwefannau defnyddiol, ond cofiwch y gallent ddyddio'n gyflym iawn.

Gwefannau cyfryngau cymdeithasol

[Cofrestrwch ar Twitter yma](#)

[Cofrestrwch ar Facebook yma](#)

[Rhestr Gyfeirio ar Gyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr](#) (Y Gymdeithas Llywodraeth Leol)

[#FollowMe - A guide to social media for elected members in Scotland](#)
(Gwasanaeth Gwella'r Alban)

[Nextdoor](#)

Rhwydwaith cymdeithasol i gymunedau yw hwn lle mae pobl sy'n byw yn yr un gymuned neu mewn cymunedau cyfagos yn gallu rhannu gwybodaeth, trefnu digwyddiadau a chynnal polau piniwn. Mae'n blatfform defnyddiol i aelodau i godi ymwybyddiaeth a chael gwybod am y pethau sydd o ddiddordeb i drigolion lleol neu'n eu poeni.

10. Dolenni

Dyma restr o'r dolenni a ddefnyddwyd yn y canllaw hwn:

Cyngor Sir Fynwy - https://twitter.com/Mon_CC_Scrutiny

Cyngor Abertawe - <https://twitter.com/SwanseaScrutiny>

Caru'r Lagŵn (Lagŵn Abertawe) - <https://twitter.com/carurlagwn>

Ymgyrch 'Faces of Swansea Council 2018' -
<https://twitter.com/hashtag/facesofswanseaCouncil2018>

Ymgyrch 'In the Depot', Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen -
<https://www.youtube.com/watch?v=G6UerjFCLdI>

Enwi sychau eira - <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-south-yorkshire-42026485>

Y cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddewis enw 'Boaty McBoatface' -
<https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-36064659>

Blogiau

Blog Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - <https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Councillors-and-committees/Leader-s-blog?lang=cy-gb>

Blog Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf -
<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/TheLeadersBlog/RhonddaCynonTafCouncilLeadersBlog.aspx>

Blog Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych - <https://cadeiryddcyngorsirddinbych.wordpress.com/>

Blog y Cyng Peter Black - <http://peterblack.blogspot.com/>

Dirprwy Arglwydd Faer Aberatwe 2018-19 - <http://swanseamayoralmusing.blogspot.com/>

Y Cyng Neil Prior - <https://www.linkedin.com/pulse/year-county-councillor-surviving-thriving-elected-life-neil-prior/?published=t>

Enghreifftiau o gyfrifon Twitter cynghorwyr

Y Cyng Debbie Wilcox - <http://www.twitter.com/LeaderNewport>

Y Cyng Rob James - <http://www.twitter.com/CllrRobJames>

Y Cyng Peter Fox - <https://twitter.com/PeterFox61>

Y Cyng Julie Fallon - <https://twitter.com/Cljrjuliefallon>
Y Cyng Saifur Rahaman - <https://twitter.com/ClrSaif>
Y Cyng Fiona Cross - <https://twitter.com/ClrFionaCross>
Y Cyng Elin Walker Jones - <https://twitter.com/elinmwj>
Y Cyng Debbie Wallice - <http://www.twitter.com/DebbieWallice>
Y Cyng Alun Williams - https://twitter.com/Alun_Williams
Y Cyng Joshua Davies - <http://www.twitter.com/ClrJoshuaPlaid>
Y Cyng Lisa Mytton - <http://www.twitter.com/ClrLisaMytton>
Y Cyng Neil Prior - <http://www.twitter.com/PriorNeil>

Enghreifftiau o gyfrifon Twitter sefydliadau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - <http://www.twitter.com/WelshLGA>
Cymdeithas Llywodraeth Leol (Lloegr) - <http://www.twitter.com/LGAComms>
Llywodraeth Cymru - <http://www.twitter.com/LlywodraethCym>
Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru - http://www.twitter.com/WG_localgov
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - <http://www.twitter.com/CynulliadCymru>
BBC Cymru Fyw - <http://www.twitter.com/BBCCymruFyw>

Enghreifftiau o gyfrifon Facebook cynghorwyr

Y Cyng Neil Prior - <https://www.facebook.com/clrneilprior/>
Y Cyng Dhanisha Patel - <https://www.facebook.com/dhanisha4ogmore/>
Y Cyng Matthew Dorrance - <https://www.facebook.com/ClrMatthewDorrance/>
Y Cyng Steve Churchman - <https://www.facebook.com/councillorstevechurchman/>

Enghreifftiau o gyfrifon Facebook cynghorau

Cyngor Wrecsam - <https://www.facebook.com/wrexhamcouncil/>
Cyngor Sir Ynys Môn - <https://www.facebook.com/cyngormon>

Enghreifftiau o sianeli YouTube cyngorau

Cyngor Caerdydd - <https://www.youtube.com/user/cardiffcouncil/featured>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - <https://www.youtube.com/user/ConwyWeb>

Cyngor Gwynedd - <https://www.youtube.com/user/CyngorGwynedd>

Cyngor Sir Fynwy - https://www.youtube.com/channel/UCZHCKKCI7DqtxDabOkj_Esg

Cyngor Sir Powys - https://www.youtube.com/channel/UCop_U-YVW7OB0jRIt3b8f1Q

Tudalennau cymorth

Tudalennau cymorth Facebook - <https://en-gb.facebook.com/help/tools>

Tudalennau cymorth Twitter - <https://help.twitter.com/en/safety-and-security/cyber-bullying-and-online-abuse>

Defnyddio'r Gymraeg

Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol - <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Defnyddio%27r%20Gymraeg%20ar%20Gyfryngau%20Cymdeithasol%20CY.pdf>

Canllawiau Defnyddiol

Canllawiau yr Heddlu ar gyfryngau cymdeithasol - <https://www.askthe.police.uk/content/Q770.htm>

Canllawiau Gwasanaeth Eryl y Goron ar gyfathrebu cyfryngau cymdeithasol - http://www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/communications_sent_via_social_media/

Llawlyfr i Gynghorwyr - Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Ar-lein - <http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1505>

Canllawiau i gynghorwyr gan CLILC - <http://wlga.cymru/gdpr-information-for-councillors>

Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol (Lloegr) - <https://www.local.gov.uk/our-support/guidance-and-resources/comms-hub-communications-support/digital-communications/social-1>

Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer aelodau etholedig, Gwasanaeth Gwella yr Alban - http://www.improvementservice.org.uk/documents/elected_members/follow-me-guide-to-social-media-for-elected-members.pdf

Dolenni defnyddiol i wefannau cyfryngau cymdeithasol

Twitter - <https://twitter.com/>

Facebook - <https://en-gb.facebook.com/>

Nextdoor - https://nextdoor.co.uk/about_us/

Hootsuite - <https://hootsuite.com/>

Buffer - <https://buffer.com/>

WhatsApp - <http://www.whatsapp.com/>